# CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: NEWID DEFNYDD CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU CYMUNEDOL, SAFLEOEDD CYFLOGAETH, AC UNEDAU MANWERTHU

# ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AC ARGYMHELLION Y SWYDDOG

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

IONAWR 2021

# Cynnwys

1.0 CEFNDIR3

Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)3

Y Cyd-destun Polisi3

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol3

Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol 3

2.0 YMRWYMIADAU CYNLLUNIO44

Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus4

ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION GAN SWYDDOGION**Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**

## 1.0 CEFNDIR

### Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

1.1 Diben y CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

### Y Cyd-destun Polisi

<u>Y Cynllun Datblygu Lleol</u>

1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.

1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisïau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:

- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

### Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n rhoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

### Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

1.6 Ystyrir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd nac yn addasu polisïau sy'n bodoli eisoes.

1.7 Felly, cyn gynted ag y bydd CCA wedi'u mabwysiadu, dylid rhoi pwys sylweddol iddynt fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## 2.0 CCA NEWID DEFNYDD CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL, SAFLEOEDD CYFLOGAETH, AC UNEDAU MANWERTHU

2.1 Bwriad y Canllaw Cynllunio Atodol yma yw rhoi ychwaneg o eglurder parthed y math o wybodaeth a thystiolaeth a ddylid ei gyflwyno mewn perthynas â cheisiadau sydd yn benodol ymwneud a newid defnydd cyfleusterau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu. Mae’r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun sydd yn berthnasol i’r defnyddiau hyn yn ceisio gwarchod y defnyddiau a sicrhau nad ydynt yn cael eu colli i ddefnyddiau amgen, oni bai fod yn gyfiawnhad a thystiolaeth dros wneud hynny.

**Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus**

2.2 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o’r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr, 2020.

2.3 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16eg o Hydref hyd at 27ain o Dachwedd, 2020.

2.4 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, cyrff amgylcheddol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn y CCA.

2.5 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:

- Ffurflen ymateb ar-lein mewn *word* a *pdf*. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr UPC ar y Cyd.
- E-byst; a
- Llythyr

2.6 Derbyniwyd cyfanswm o 10 o sylwadau. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd.

2.7 Mae’r adran a ganlyn (Atodiad 1) yn crynhoi’r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad. Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **<u>ffont drom wedi'i thanlinellu</u>**.

**ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION SWYDDOGION**

| **Rhif Adnabod y Sylw** | **Math o sylw** | **Sylwebydd** | **Rhan** | **Crynodeb o'r sylwadau** | **Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 3.7.2 (maen prawf 1) | Ystyrir ei fod yn rhy ragnodol. Asiantau lleol sydd yn gwybod sut i farchnata orau yn ddibynnol ar yr achos. | Mae'r wybodaeth a ddarperir yn adran 3.7.2 yn rhoi arweiniad clir mewn perthynas â'r dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi cais i newid defnydd safle cyflogaeth i ddefnydd arall. Mae sicrhau bod cyflenwad digonol o dir cyflogaeth wedi'i ddiogelu yn cyd-fynd ag amcan Polisi CYF 1 felly dylid defnyddio proses asesu drylwyr.<br><br>Ymhellach, nid yw pob cais cynllunio yn cael ei gyflwyno gan asiantau cynllunio/arbenigwr felly mae darparu canllawiau manwl o fewn y CCA o fudd i ddarpar ymgeiswyr.<br><br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid. |
| 2. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 3.7.2 (maen prawf 2) | Ystyrir ei fod yn afresymol o ystyried bod polisïau'r Cyngor yn seiliedig ar arolwg Tir Cyflogaeth sy'n dyddio'n ôl i 2012. | Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn seiliedig ar ganlyniadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth. Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer defnydd amgen bydd angen derbyn cyfiawnhad llawn. Ystyrir ei bod yn rhesymol i asesiad gael ei wneud a'i gymharu â chasgliad yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth.<br><br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid. |
| 3. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 3.8.2 | Mae hyn yn groes i ofyniad Polisi PCYF5 a'r canllawiau a ddarperir yn TAN 23. Ni ddylid cyflwyno newid o'r fath o fewn CCA gan ei fod yn newid y gofyniad a nodir mewn polisi mabwysiedig o fewn y CDLl ar y Cyd sydd wedi bod yn destun archwiliad.<br><br>Dylai'r paragraff hwn ddileu'r gofyniad i fodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf a restrir.<br><br>Mae'r gofyniad am gyfiawnhad sylweddol hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i'r hyn a nodir ym maes polisi CYF 5. | Mae Polisi CYF 5 yn nodi'n glir mai dim ond mewn amgylchiadau arbennig y rhoddir caniatâd i gynigion sydd yn ymwneud a rhyddhau tir ar safleoedd cyflogaeth bresennol at ddibenion amgen a bod hynny ar yr amod ei fod yn cydymffurfio ag un neu fwy o'r meini prawf fel y'u rhestrir yn y polisi.<br><br>Mae paragraff 3.8.2 yn rhoi eglurder ynghylch pryd y byddai'r ACLl yn disgwyl i gais cynllunio ar gyfer newid defnydd safle cyflogaeth gydymffurfio ag 'un neu fwy' o'r meini prawf fel y'u rhestrir yn y polisi. Ystyrir mai'r prif safleoedd cyflogaeth fel y'u diogelir drwy Bolisi CYF 1 yw'r safleoedd cyflogaeth fwyaf deniadol a fwyaf tebygol o ddod ymlaen yn y tymor byr. Felly, dylid cynnal asesiad trylwyr wrth ystyried rhyddhau prif safleoedd cyflogaeth sylfaenol ar gyfer ddefnydd arall.<br><br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid. |
| 4. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.4.2 (maen prawf 1) | Ystyrir ei fod yn rhy ragnodol. Asiantau lleol sydd yn gwybod sut i farchnata orau yn ddibynnol ar yr achos. | Mae'r wybodaeth a ddarperir ym mharagraff 4.4.2 yn rhoi canllawiau clir mewn perthynas â'r dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi cais i newid defnydd uned fanwerthu A1. Prif amcan y polisïau manwerthu, yn enwedig Polisi MAN 2, yw diogelu'r brif ardal siopa ar gyfer defnyddiau A1. Mae'r polisi'n caniatáu hyblygrwydd ar yr amod bod cyfiawnhad priodol wedi'i dderbyn.<br><br>Ymhellach, nid yw pob cais cynllunio yn cael ei gyflwyno gan asiantau cynllunio/arbenigwr felly mae darparu canllawiau manwl o fewn y CCA o fudd i ddarpar ymgeiswyr. |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Crynodeb o'r sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ARGYMHELLIAD – Dim newid. |
| 5. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.4.2 (Asesiad o Hyfywdra Ariannol) | Byddai'r rhan fwyaf o unedau A1 sy'n cael eu marchnata yn wag. Nid yw busnesau sy'n methu yn mynd i barhau i ddefnyddio unedau A1 o'i fath. Mae angen hyblygrwydd ar gyfer pryd y dylid gofyn am hyn. | Mae maen prawf o Bolisi MAN 2 yn nodi'n glir y gofyniad fod ceisiadau sy'n ymwneud a newid defnydd uned manwerthu (A1) yn y brif ardal siopa angen tystiolaethu fod y defnydd ddim yn hyfyw mwyach. Gan hynny mae'r gofyniad i gyflwyno gwybodaeth ategol ar ffurf Asesiad o Hyfywedd Ariannol yn cyd-fynd â gofyniad y polisi. Er eglurder, awgrymir bod y geiriad yn cael ei ddiwygio.<br><br>ARGYMHELLIAD – Diwygio'r geiriad fel a ganlyn:-<br><br>"Ymhellach fe ddylid cyflwyno Asesiad Hyfywdra Ariannol sydd **yn profi fod yr eiddo ddim yn hyfyw ar gyfer defnydd A1 a bod cadw'r defnydd A1 wedi cael ei archwilio'n llawn.** ~~fod y busnes ar ei ffurf bresennol yn methu a chan hynny ei bod hi ddim yn ariannol hyfyw i barhau gyda'r fenter."~~ |
| 6. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.5.1 (maen prawf 1) | Mae'r safleoedd y tu allan i ganol trefi diffiniedig felly mae'n ymddangos yn afresymol ystyried ffin ganol y dref fel pellter cerdded rhesymol. | Anogir lleoli defnyddiau manwerthu o fewn ffiniau canol trefi. Felly, os dderbynnir cais am uned fanwerthu y tu allan i ffin ganol tref, mae'n rhesymegol ystyried a oes darpariaeth o fewn ffin ganol y dref (lle anogir y defnydd).<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid. |
| 7. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.5.1 (maen prawf 2) | Mae paragraff 3.7.2 yn cyfeirio at farchnata 12 mis ac mae'r polisi MAN 3 yn cyfeirio at 6 mis. Ni ddylai CCA geisio newid polisi. | Nid yw'r ymarferiad marchnata 12 mis ar gyfer safleoedd cyflogaeth fel y nodir ym mharagraff 3.7.2 yn groes i'r polisi perthnasol gan nad oes amser pendant wedi'i bennu ar gyfer marchnata o fewn y polisi. Polisi MAN3 yn ymwneud â manwerthu ac mae'n nodi'n glir y gofyniad marchnata o 6 mis.<br><br>ARGYMHELLIAD – Dim newid. |
| 8. | Gwrthwynebiad | Cadnant Planning Ltd. | 4.6.1 (maen prawf 1) | Mae polisi'n ymwneud â diogelu siopau pentref. Mae 4.5.1 o'r CCA yn cyfeirio at Ganol Trefi. Mae hyn yn afresymol. | Derbynnir y sylw ac awgrymir bod y meini prawf yn cael eu diwygio yn unol â hynny.<br><br>ARGYMHELLIAD –<br><br>Diwygio maen prawf 1 fel a chanlyn:-<br><br>**Dylai gwasanaeth tebyg o'r fath fod o fewn pellter cerdded rhesymol a diogel. Credir ei bod yn briodol ystyried y ffin ddatblygu (os yw'n berthnasol) fel 'pellter cerdded rhesymol', neu unrhyw ardal sydd 800m i ffwrdd o safle'r cais (pa bynnag un yw'r pellter lleiaf).** |
| 9. | Gwrthwynebiad | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyffredinol | Er ein bod yn croesawu'r Newid defnydd o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu CCA, hoffem dynnu sylw at y ffaith bod gan y CDLl ei bolisïau strategol presennol, mae'n ymddangos bod y CCA yn grwpio rhai defnyddiau adeiladu yn "gyfleusterau cymunedol" ac yn cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, addoldai, tafarndai ac ati. O dan NCT15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, Ffigur 2 ceir rhestr o adeiladau/mathau yr ystyrir eu bod yn ddatblygiadau perygl llifogydd agored | Nodir y sylw. Fodd bynnag, ni ystyrir yn briodol diwygio'r CCA.<br><br>Byddai cydymffurfio â Nodyn Cyngor Technegol 15 yn ystyriaeth (os yw'n berthnasol) yn ystod y broses o ystyried cais cynllunio.<br><br>Mae'r CCA yn ymwneud yn benodol â'r ystyriaethau yn gysylltiedig ag egwyddor y datblygiad. |

| Rhif Adnabod y Sylw | Math o sylw | Sylwebydd | Rhan | Crynodeb o'r sylwadau | Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | iawn i niwed (ysgolion/llyfrgelloedd) ynghyd â rhestr o ddatblygiadau llai agored i niwed (tafarndai).<br><br>Pe bai un o'r cyfleusterau cymunedol hyn yn newid defnydd lle ystyrir ei fod yn newid defnydd o ddatblygiadau perygl llifogydd llai agored i niwed i ddatblygiadau perygl llifogydd sy'n agored iawn i niwed byddai hefyd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd i gefnogi unrhyw gais cynllunio i gydymffurfio'n llawn â NCT ar gyfer y meini prawf derbynioldeb yn adran 7/Atodiad 1.<br><br>Rydym hefyd yn eich atgoffa, yn ogystal â'r uchod, os bydd unrhyw gynnig yn newid datblygiad perygl llifogydd isel sy'n agored i niwed i ddatblygiadau perygl llifogydd bregus iawn, ac mae'r cynnig yn benodol o fewn parth C2 y Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cefnogi TAN15, neu'n rhannol o fewn parth C2, yna ni ddylid caniatáu'r cynnig ym Mharagraff C2 (paragraff 6.2 o TAN15). | ARGYMHELLIAD – Dim newid. |
| 10. | Gwrthwynebiad | Theatres Trust | 2.1.1 (Tabl 2.ii) | Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu'r canllawiau ychwanegol a ddarperir gan y ddogfen hon a'r cryfder y mae'n ei roi i ddiogelu cyfleusterau gwerthfawr. Mae paragraff 2.1.1 yn cadarnhau bod y polisi yn berthnasol i theatrau. Byddai gwerth hefyd mewn ehangu'r eglurhad hwn i gynnwys sinemâu a chanolfannau celfyddydol y mae enghreifftiau ohonynt yn yr ardal fel yr Empire yng Nghaergybi a Neuadd Dwyfor.<br><br>O fewn y tabl (2.ii) byddem yn awgrymu ei ddiwygio fel bod tystiolaeth farchnata yn cael ei chryfhau drwy gynnwys gofyniad bod y marchnata yn cael ei gynnal ar lwyfannau lleol a cenedlaethol sy'n berthnasol i'r math o gyfleuster. Byddai hyn yn helpu i sicrhau ymdrech farchnata wirioneddol a chadarn. | Mae'r enghreifftiau o gyfleusterau cymunedol yn deillio'n uniongyrchol o'r paragraff eglurhad i Bolisi ISA 2 fel y'i cynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r Canllaw ynghyd â'r paragraff eglurhad yn nodi'n glir y byddai unrhyw gyfleuster cymunedol sy'n gwasanaethu'r gymuned leol yn berthnasol i'r polisi. Felly, nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol. Er mwyn sicrhau cysondeb â geiriad y paragraff eglurhad yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ni ystyrir bod angen diwygio'r geiriad.<br><br>Derbynnir y sylw mewn perthynas â'r ymarferiad marchnata (gweler isod).<br><br>ARGYMHELLIAD –<br><br>Diwygio paragraff 2.3.1 (maen prawf 2ii) fel a chanlyn:-<br><br>"Ble'n berthnasol (defnyddiau masnachol), os yw'r eiddo yn wag fe ddylid profi fod yna ymgais aflwyddiannus wedi ei wneud i farchnata'r eiddo ar werth neu rent am bris rhesymol a theg am gyfnod parhaus o 12 mis (o leiaf). **Dylai'r ymarferiad marchnata gael ei gynnal ar lwyfannau lleol a chenedlaethol, sydd yn arbenigo mewn marchnata cyfleusterau masnachol.** Fe all y dystiolaeth hynny gynnwys copïau o hysbysebion marchnata'r uned ynghyd a chadarnhad ysgrifenedig gan yr asiantau gwerthu ynglŷn â'r diddordeb/cynigion sydd wedi bod. |